**Andrew Davies AM/AC**
**Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Minister for Finance and Public Service Delivery**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

David Melding AM
Chair of the Audit Committee
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

26 November 2008

Dear David

**POLICY STATEMENT ON INSPECTION, AUDIT AND REGULATION**

Today I published for consultation a Welsh Assembly Government Statement on Inspection, Audit and Regulation in Public Services in Wales. I attach a copy of the Press Release and the statement itself. The consultation runs until the end of February 2009, and I would welcome your Committees' views on the statement, and on what I see as an important element of the drive to improve the delivery of public services in Wales.

Yours
Andrew

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8129
Correspondence.Andrew.Davies@Wales.gsi.gov.uk

# Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio yng Nghymru

## Datganiad Polisi

Cyhoeddwyd at ddibenion ymgynghori

Tachwedd 2008

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

D4790809
© Hawlfraint y Goron 2008

Llywodraeth Cynulliad Cymru

# AROLYGU, ARCHWILIO A RHEOLEIDDIO YNG NGHYMRU

Cyhoeddwyd at ddibenion ymgynghori

Tachwedd 2008

## RHAGAIR GAN Y GWEINIDOG

Eir ati yn *Cymru'n Un* i gadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau gwasanaethau cyhoeddus sy'n atebol ac sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, ac i lunio strategaeth a fydd yn fodd i sicrhau bod gwasanaethau lleol yn gwella'n barhaus. Yn y datganiad hwn, amlinellir, a hynny at ddibenion ymgynghori, y rhan y mae'r Llywodraeth yn disgwyl i arolygu, archwilio a rheoleiddio ei chwarae o safbwynt gwireddu'r ymrwymiad hwnnw.

Caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu ar ran dinasyddion (sy'n talu am y gwasanaethau hynny drwy drethi) er budd dinasyddion.
Mae arolygwyr, archwilwyr a rheoleiddwyr hefyd yn gweithredu ar ran dinasyddion. Maent yn adrodd am wasanaethau er mwyn rhoi sicrwydd a gwella atebolrwydd, hyrwyddo gwelliannau, a llywio polisïau'r llywodraeth er mwyn helpu i ddatblygu gwell gwasanaethau. Maent yn helpu i sicrhau'r tryloywder sy'n arwain at well penderfyniadau ac at well canlyniadau.

Mae cyrff arolygu, archwilio a rheoleiddio yng Nghymru wedi dangos eisoes eu bod yn gallu gweithredu mewn ffordd rymus i ddiogelu buddiannau dinasyddion ac i hyrwyddo gwelliannau i wasanaethau. Eir ati yn y datganiad hwn i ddangos sut yr ydym yn anelu at sicrhau bod y gwasanaethau hynny yn gyson effeithiol, a hynny o fewn fframwaith cydlynol o bolisïau a gweithdrefnau a fydd yn fodd i sicrhau gwell gwasanaethau cyhoeddus. Llwyddwyd i wneud llawer iawn eisoes o ran sicrhau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r cyrff arolygu yn datblygu system arolygu a rheoleiddio fwy cydlynol ac unedig. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i ni oedi ennyd, i adolygu hynt y gwaith a wnaed hyd yma ac i ystyried sut y gallwn fynd ati i wella'r system ymhellach. Mae angen i ni sicrhau bod y gyfundrefn arolygu yn addas at y diben ac yn rhoi sicrwydd i'n dinasyddion ond ei bod, ar yr un pryd, yn osgoi unrhyw feichiau diangen. Yr her sy'n ein hwynebu yw sicrhau cydbwysedd.

Y rheini sy'n darparu gwasanaethau sy'n bennaf gyfrifol am y gwasanaethau hynny, gan weithio yn unol â pholisïau a fframweithiau perfformiad a bennir gan y llywodraeth. Mae'n rhaid iddynt fynd ati mewn modd effeithiol i gynllunio ac i ddarparu (neu i gomisiynu) gwasanaethau, i reoli perfformiad ac i fod yn atebol i'r cyhoedd. Mae arolygwyr ac archwilwyr yn gwirio'n annibynnol, gan ddefnyddio arbenigedd proffesiynol a phwerau cyfreithiol. Mae rheoleiddwyr sy'n cofrestru gwasanaethau neu weithredwyr gwasanaethau (ac sydd, drwy hynny, yn caniatáu iddynt weithredu) yn helpu i sicrhau y cedwir at y safonau gofynnol, a gellir troi atynt yn ffurfiol am gymorth os na chydymffurfir â'r rheoliadau.

Ni all, ac ni ddylai arolygwyr, archwilwyr a rheoleiddwyr eraill oruchwylio popeth y mae darparwyr gwasanaethau yn ei wneud. Rhaid bod ganddynt systemau gwybodaeth da sy'n llywio'u rhaglenni gwaith. Rhaid iddynt asesu sut i wneud eu gwaith er mwyn cael yr effaith orau. Rhaid iddynt dargedu'r gwaith y maent yn ei wneud, gan sicrhau ei fod yn gymesur â buddiannau dinasyddion ac â'r manteision tebygol. Rhaid iddynt gyflwyno

adroddiadau clir am yr hyn y maent yn ei ganfod, gan wneud hynny mewn da bryd ac yn y modd sy'n fwyaf tebygol o gyrraedd y nod y maent yn anelu ato.

Rhaid iddynt gydweithio'n agos â'r gwasanaethau y maent yn eu harolygu, yn eu harchwilio neu'n eu rheoleiddio, heb beryglu eu hannibyniaeth, a hynny er mwyn hwyluso'r gwaith y maent yn ei wneud ac er mwyn helpu gwasanaethau i wella. Rhaid iddynt gydweithio'n agos â'r llywodraeth, gan wneud hynny hefyd mewn ffordd nad yw'n peryglu eu hannibyniaeth, er mwyn helpu i werthuso a datblygu polisi ac er mwyn llywio cymorth neu ymyriadau pellach. Ond yn anad dim, rhaid iddynt gynrychioli buddiannau dinasyddion, gan wneud hynny mewn modd cwbl ddiduedd.

**Andrew Davies AC**
**Y Gweinidog dros Gyllid a Gwasanaethau Cyhoeddus**

## 1. DULL CYNHWYSFAWR O WEITHREDU

1.1 Eir ati yn y datganiad hwn i amlinellu polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar arolygu, archwilio a rheoleiddio – y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon gan ddefnyddio'r ymadrodd "adolygu allanol". Mae'r datganiad yn ymdrin ag adolygu gwasanaethau cyhoeddus yn allanol – gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ei hun, gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a chan gyrff megis arolygiaethau'r gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r datganiad hefyd yn ymdrin â rheoleiddio busnesau yn allanol – o dan bolisïau sy'n cael eu harwain yn bennaf gan lywodraeth y DU ond sy'n cael eu rhoi ar waith yn rhannol gan gyrff datganoledig a chyrff lleol eraill, gan gynnwys gwasanaethau rheoleiddio yr awdurdodau lleol. Mae'n amlinellu fframwaith y gellir ei ddefnyddio ar gyfer mathau eraill o reoleiddio ac sy'n pennu dull mwy cynhwysfawr a chydgysylltiedig o weithredu sydd hefyd yn berthnasol iddynt hwy.

1.2 Eir ati i arolygu gwasanaethau cyhoeddus er mwyn hyrwyddo buddiannau dinasyddion a sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n atebol i'r cyhoedd. Mae arolygu'n fodd hefyd i annog y gwasanaethau hynny i wella ac yn fodd i lywio polisïau'r llywodraeth. Eir ati i reoleiddio busnesau er mwyn diogelu buddiannau'r cyhoedd a sicrhau tegwch o ran amodau fel y bo modd i fusnesau ffynnu. Yn y naill achos a'r llall, dylid sicrhau mai buddiannau dinasyddion sy'n cael y sylw pennaf.

1.3 Rhaid i waith adolygu allanol fod wedi'i gydgysylltu'n dda, rhaid iddo fod yn gymesur â'r budd cyffredinol i'r cyhoedd a rhaid iddo fod yn fodd i sicrhau gwerth am arian. O fewn y trefniadau ffurfiol sydd gan bob un ohonynt, rhaid i'r cyrff adolygu allanol barchu egwyddorion llywodraethu da ac atebolrwydd. Rhaid iddynt fod yn gryf ac yn hyblyg a rhaid iddynt fedru cydweithio'n dda. Rhaid wrth drefniadau ar y cyd a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt er mwyn iddynt fedru cydweithio'n llwyddiannus.

1.4 Mae llawer yn gyffredin rhwng ein polisi ni a pholisïau llywodraethau eraill y DU ond mae cyd-destun polisi penodol Gymreig i'n polisi ni. Rydym:
- yn sicrhau mai'r dinesydd sy'n dod gyntaf - dyna yw'n hegwyddor arweiniol;
- yn cydnabod y rôl hanfodol sy'n cael ei chwarae gan adolygiadau allanol a gynhelir ar y safleoedd sy'n cael eu hadolygu;
- yn disgwyl i waith adolygu allanol chwarae rhan lawn mewn rhaglen lle'r eir ati i hyrwyddo perfformiad da a gwelliant parhaus, i annog arloesi ac i hyrwyddo gwerth am arian;
- yn cydnabod manteision arolygiaethau cryf, sydd ag awdurdod proffesiynol yn eu meysydd eu hunain, ar gyfer yr amryfal sectorau;
- yn cydnabod mai drwy bartneriaethau effeithiol ar draws ffiniau sefydliadol y mae llwyddo.

1.5 Mae'r polisi hwn yn rhan o raglen uchelgeisiol i wella gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r rhaglen honno'n seiliedig ar egwyddorion y cytunwyd arnynt ar gyfer llywodraethu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ac mae'n cynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd, safonau cenedlaethol a fframweithiau

perfformiad, byrddau gwasanaethau lleol, datblygu rheolwyr yn y sector cyhoeddus a mentrau caffael a rennir. Yr un egwyddorion sy'n sail i'r polisi hwn. Mae'n ffordd arall o fynd ati i gynnal trafodaethau adeiladol ac i weithredu ar y cyd er mwyn sicrhau gwelliannau. Byddwn yn parhau i yrru'r agenda hon yn ei blaen mewn ffordd gydlynol, gan wneud hynny drwy gyfrwng y polisi hwn a pholisïau cysylltiedig,

1.6 Byddwn yn cyhoeddi canllawiau o bryd i'w gilydd am y modd y byddwn yn disgwyl i gyrff adolygu allanol ac eraill gadw at yr egwyddorion a gweithredu'r cynigion a geir yn y datganiad hwn.

## 2. CANOLBWYNTIO AR Y DINESYDD

2.1 Wrth adolygu'n allanol, rhaid canolbwyntio'n bennaf ar fuddiannau ein dinasyddion. Drwy adolygu'n allanol, bydd modd gweld sut y mae dinasyddion yn defnyddio gwasanaethau: pan mor hawdd yw hi i gael gafael ar wybodaeth am yr hyn sydd ei angen arnynt, i gysylltu â'r gwasanaethau ac i gael gafael ar y rhai priodol. Bydd yn fodd hefyd i weld sut y mae dinasyddion yn cael eu trin, faint o lais sydd ganddynt ac i ba raddau y mae gwasanaethau'n cael eu teilwra er mwyn diwallu eu hanghenion penodol hwy. Bydd modd cael gwybodaeth am yr ystod o wasanaethau sydd ar gael, ac am ansawdd y gwasanaethau hynny, a gweld pa mor effeithiol ydynt o ran sicrhau'r canlyniadau y dymunir eu gweld.

2.2 Wrth adolygu'n allanol, rhaid ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau cyhoeddus yn ymateb i anghenion dinasyddion - o ran y ffordd y maent yn gweithredu, yn cael eu rhedeg, ac yn cydweithio â'i gilydd; o ran y ffordd y maent yn mynd ati i gynnwys dinasyddion, i geisio'u barn ac i weithredu ar sylwadau a chwynion; ac o ran y ffordd y maent yn ad-drefnu gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion a bodloni disgwyliadau dinasyddion, sy'n prysur newid. Drwy adolygu'n allanol, bydd modd ystyried sut y gofelir am wasanaethau ar ran dinasyddion: sut y maent yn cael eu llywodraethu a'u rheoli, sut yr eir ati i ddefnyddio arian cyhoeddus, ac a yw'r gwasanaethau hynny'n atebol i'r cyhoedd, yn unol ag egwyddorion llywodraethu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd[1].

2.3 Mae egwyddorion cydraddoldeb, tegwch, cyfiawnder cymdeithasol a hawliau dynol yn rhan annatod o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Ni ddylai unrhyw un golli cyfle oherwydd ei hil, ethnigrwydd, anabledd, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran neu grefydd.
Mae gwasanaethau da o fudd i bawb ond gall gwasanaethau gwael neu anghyson effeithio mewn ffordd anghymesur ar y rheini sydd eisoes o dan anfantais oherwydd eu hamgylchiadau personol neu gymdeithasol.
Mae gan gyrff adolygu allanol ddyletswydd i'r cyhoedd yn gyffredinol, ond rhaid iddynt hefyd roi sylw penodol i unigolion ac i grwpiau sydd o dan anfantais am y rhesymau a nodir uchod, sydd mewn perygl penodol neu sydd leiaf abl i hyrwyddo neu i ofalu am eu buddiannau eu hunain.

2.4 Mae ymchwil[2] yn dangos nad yw'r rhan fwyaf o ddinasyddion yn gwybod rhyw lawer am rôl cyrff adolygu allanol, er bod y rheini sydd â chyslltiad uniongyrchol â'r gwasanaethau sy'n cael eu harolygu yn gwybod mwy am y rôl honno. Y materion sydd o'r diddordeb mwyaf i ddinasyddion yw'r

---

[1] http://new.wales.gov.uk/topics/improvingservices/workingtogether/governance/principles/?lang=cy
[2] Gan gynnwys:
*Putting up with second best: summary of research into consumer attitudes towards involvement and representation*, y Cyngor Defnyddwyr Cenedlaethol, 2002;
*Scrutiny and the Public: Qualitative Study of Public Perspectives on Regulation, Audit, Inspection and Complaints Handling of Public Services in Scotland*, Llywodraeth yr Alban, 2007;
*Looking out from the middle: User involvement in health and social care in Northern Ireland*, y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth, 2008.

rheini sy’n effeithio’n uniongyrchol ac yn lleol ar eu bywydau. Maent yn rhoi gwerth ar annibyniaeth cyrff adolygu allanol ac ar y rhan y mae’r cyhoedd yn cael ei chwarae yn y broses. O’r herwydd, rhaid i gyrff adolygu allanol barhau i ddatblygu’r modd y maent yn mynd ati i feithrin perthynas â dinasyddion ac i roi rhan iddynt yn eu prosesau.

2.5 Wrth adolygu’n allanol, rhaid adrodd yn agored wrth y cyhoedd ac wrth gynrychiolwyr etholedig y cyhoedd (yn amodol ar gyfyngiadau penodol). Wrth gynnal adolygiadau o wasanaethau unigol, rhaid adrodd am brofiadau dinasyddion yn lleol - drwy gyfrwng arolygon, astudiaethau achos a safbwyntiau unigolion a grwpiau sy’n cael eu cyfweld. Caiff y canfyddiadau hynny eu dwyn ynghyd mewn astudiaethau cenedlaethol, trosolygon o ardaloedd ac adroddiadau blynyddol er mwyn rhoi disgrifiad pwerus o brofiadau dinasyddion. Dylid sicrhau bod cysylltiadau penodol â phrosesau archwilio a chraffu ffurfiol ym maes llywodraeth leol a llywodraeth genedlaethol.

**Cynigion**

2.6 Rydym yn disgwyl i gyrff adolygu allanol adeiladu ar yr arferion gorau sy’n bodoli eisoes o ran:

- cynrychioli buddiannau dinasyddion;
- ymgynghori â dinasyddion (yn enwedig y rheini y darperir gwasanaethau ar eu cyfer) ynglŷn â’r hyn y maent yn ei wneud a sut y maent yn ei wneud;
- rhoi rhan i ddinasyddion (os yw hynny’n ymarferol ac yn briodol) mewn prosesau adolygu allanol.

2.7 Byddwn yn gofyn i gyrff adolygu allanol gytuno ar amserlenni ar gyfer cyhoeddi eu hadroddiadau, gyda golwg ar sicrhau bod eu canfyddiadau o fewn cyrraedd mor hwylus â phosibl i’r cyhoedd.

2.8 Byddwn yn anelu at sicrhau bod gwaith adolygu allanol yn llywio ac yn cael ei lywio gan swyddogaethau craffu aelodau etholedig i raddau mwy helaeth, a hynny ar y lefel leol a thrwy bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## 3. HYRWYDDO GWELLIANNAU

3.1 Y rheini sy’n darparu ac yn comisiynu gwasanaethau sy’n bennaf gyfrifol am wella’r gwasanaethau hynny, gan wneud hynny yn unol â gofynion deddfwriaeth a pholisïau’r llywodraeth. Mae angen systemau effeithiol ar awdurdodau cyhoeddus ac ar y rheini sy’n gweithio ar eu rhan er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion, yn sicrhau gwerth am arian, yn datblygu eu gwasanaethau, yn rheoli eu perfformiad a’u bod yn atebol i’r cyhoedd, gan anelu at wella’n barhaus. Mae gwaith adolygu allanol yn cyd-fynd â’r cyfrifoldebau hyn ond nid yw’n cymryd eu lle.

3.2 Rydym wrthi’n adolygu’r fframweithiau ar gyfer safonau cenedlaethol, systemau mesur perfformiad, targedau o ran canlyniadau a chytundebau darparu, gan anelu at lunio fframweithiau mwy cydlynol ac effeithiol. Dylai gwaith adolygu allanol fod yn gydnaws â’r fframweithiau hyn a chyd-fynd â hwy, a bod yn rhan o’r broses o adolygu pa mor effeithiol ydynt.

3.3 Dylai cyrff adolygu allanol anelu at hyrwyddo gwelliannau, i’r modd y maent yn defnyddio hunanasesu, i’r modd y maent yn rhoi rhan i staff ac i’r rheini sy’n adolygu cymheiriaid, ac i’r modd y maent yn mynegi barn glir sy’n seiliedig ar dystiolaeth. Dylent gyflwyno eu canfyddiadau a’u hargymhellion mewn ffordd mor uniongyrchol ac adeiladol ag y bo modd, gan ofalu nad ydynt yn osgoi negeseuon anodd. Dylent ddefnyddio’u canfyddiadau, yn enwedig enghreifftiau o arferion da, i hyrwyddo gwelliannau yn fwy cyffredinol. Dylai’r rheini sy’n rheoleiddio busnesau barhau i gynnig cyngor i’r rheini y maent yn eu rheoleiddio, a hynny er mwyn hyrwyddo cydymffurfiaeth.

3.4 Dylent wneud eu gwaith a chyflwyno’u canfyddiadau mewn ffyrdd sy’n hyrwyddo’r broses o ddatblygu gwasanaethau ac arloesi, gan dalu sylw arbennig i gydweithio rhwng cyrff cyhoeddus. Er bod yn rhaid mynd ati, wrth adolygu’n allanol, i asesu a yw cyrff yn cydymffurfio â’r safonau sy’n bodoli eisoes ar gyfer gwasanaethau, ac er bod yn rhaid mynd ati, yn gwbl briodol, i ddwyn sylw at y peryglon sy’n gysylltiedig â newid, rhaid hefyd sicrhau cydbwysedd rhwng yr agweddau hyn a’r angen i addasu ac i ymateb i amgylchiadau ac i ddisgwyliadau sy’n newid. Mae gan waith adolygu allanol rôl benodol i’w chwarae o ran dilysu gwelliannau ac o ran dwyn sylw at ffactorau sy’n hanfodol i lwyddiant, mewn gwasanaethau unigol ac mewn partneriaethau.

3.5 Dylai’r berthynas waith rhwng cyrff adolygu allanol a phawb sy’n gysylltiedig â gwella gwasanaethau cyhoeddus fod yn un weithredol, a hynny er mwyn helpu i sicrhau bod cymorth yn cael ei gyfeirio at y mannau lle mae ei angen fwyaf. Er hynny, dylid gwahaniaethu’n bendant rhwng gwaith adolygu allanol ffurfiol - arolygu, archwilio, rheoleiddio – a gwaith datblygu. Er mwyn gochel rhag gwrthdaro buddiannau neu rhag canfyddiadau bod cyrff allanol yn adolygu eu gwaith eu hunain, rhaid gwahaniaethu mewn modd arbennig o glir rhwng gweithgarwch adolygu allanol ffurfiol (yr ymgymerir ag ef yn unol â phwerau statudol ac yn unol

ag egwyddorion cymesuredd ac adrodd cyhoeddus) ac unrhyw waith cynghori neu wella yr ymgymerir ag ef ar ran y corff sy'n cael ei adolygu (ac y mae rhwydd hynt i'r corff hwnnw ddewis manteisio arno). Yn yr un modd, os nad gwaith craffu allanol yw eu prif ddiben, dylai cyrff o'r fath (megis asiantaethau gwella) ofalu nad oes unrhyw ddyblygu neu ddryswch rhwng eu gwaith hwy a gwaith adolygu allanol.

3.6 Os gwelir, ar ôl cynnal adolygiad allanol, fod cryn le i bryderi, dylai'r cyrff adolygu allanol rannu'r wybodaeth hon a gweithredu arni yn unol â phrotocolau y cytunwyd arnynt. Os oes gan gyrff adolygu bwerau gorfodi, dylent arfer y pwerau hynny mewn ffyrdd sy'n anelu at sicrhau canlyniadau sydd o'r budd mwyaf i ddinasyddion yn gyffredinol. Rydym yn arddel y Concordat Gorfodi a gyhoeddwyd ym 1998, yn ogystal â'r canllawiau ar arferion da a gyhoeddwyd wedi hynny[3], ac yn disgwyl i gyrff yng Nghymru, wrth iddynt wneud gwaith gorfodi mewn perthynas â rheoleddio, weithredu'n unol â'r egwyddorion a nodir yn y dogfennau hynny neu mewn unrhyw ddogfennau eraill y cytunir arnynt yn eu lle.

### Cynigion

3.7 Byddwn yn cydweithio â chyrff adolygu allanol, yn unigol ac ar y cyd, a chyda chyrff perthnasol eraill er mwyn sicrhau bod gwaith adolygu allanol yn gwneud mwy o gyfraniad at wella gwasanaethau.

3.8 Byddwn yn symleiddio'r prosesau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth ac ar gyfer gweithredu ar y cyd, gan wneud hynny er mwyn cynorthwyo i sicrhau gwelliannau, yn enwedig drwy roi cymorth ac ymyrryd mewn da bryd lle bo angen gwneud hynny.

3.9 Byddwn yn cefnogi cydweithio er mwyn dwyn sylw at arferion da ac at arloesi wrth ddarparu gwasanaethau, a hynny er mwyn hyrwyddo dysgu a datblygu ledled Cymru.

3.10 Bydd ein Mesur ar Lywodraeth Leol yn egluro ac yn cryfhau'r rôl sydd gan waith adolygu allanol i'w chwarae o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella, gan wneud hynny drwy asesiadau gwella.

3.11 Rydym wedi cyflwyno protocol newydd ar gyfer ymdrin ag achosion lle mae cryn bryder am wasanaethau a ddarperir ym maes llywodraeth leol, gan adeiladu ar brofiad ac ar ymchwil i'r hyn sy'n gweithio orau. Rydym hefyd wedi cynnwys darpariaethau yn y Mesur arfaethedig ar Lywodraeth Leol a fydd yn rhoi'r gefnogaeth statudol briodol i egwyddorion y protocol hwnnw.

---

[3] *Enforcement Concordat: Good Practice Guide for England and Wales*, yr Adran Masnach a Diwydiant, 2003.

## 4. LLYWIO POLISI

4.1 Mae ein hymrwymiad i wella gwasanaethau cyhoeddus yn golygu bod yn rhaid wrth ddull mwy systematig o lawer o weithredu a llawer mwy o gydweithio ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus. Mae'r cyrff adolygu allanol yn rhan o'r cyd-destun hwnnw. Er bod yn rhaid iddynt fod y annibynnol wrth arfer eu swyddogaethau craidd, rhaid iddynt beidio â bod yn ynysig.

4.2 Mae gwahaniaethau rhwng y cyrff adolygu allanol o ran eu statws sefydliadol ac o ran eu perthynas â Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rhaid bod gan bob un ohonynt ddigon o annibyniaeth broffesiynol i ymgymryd â'u swyddogaethau adolygu allanol ac i adrodd amdanynt. Rhaid i bob un ohonynt fedru rhannu gwybodaeth er budd ehangach y cyhoedd a defnyddio eu gwybodaeth a'u profiad er mwyn cyfrannu at ddatblygu polisi.

4.3 Rydym am roi sail fwy systematig i'n perthynas â chyrff adolygu allanol, a rhoi mwy o ran iddynt yn y gwaith o lywio polisïau'r llywodraeth ac o safbwynt craffu ar lefel genedlaethol. Rydym hefyd am weld gwybodaeth a gesglir yn ystod adolygiadau allanol yn cael ei defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl, i lywio cymorth ac ymyriadau, i gydnabod yr hyn a gyflawnwyd ac i hyrwyddo arferion da, y gwaith o ddatblygu gwasanaethau a chydweithio effeithiol.

4.4 Yn Adolygiad Beecham[4], cynigiwyd y dylid cydweithio llawer mwy wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ac y dylid bod yn fwy agored o lawer wrth ddarparu gwybodaeth am berfformiad gwasanaethau cyhoeddus. Rydym am gryfhau'r trefniadau sy'n caniatáu i'r cyrff sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus, y cyrff adolygu allanol a'r Llywodraeth gyfnewid gwybodaeth am berfformiad gwasanaethau, a hynny fel y bo modd:

- gwella prosesau adrodd wrth y cyhoedd ac atebolrwydd democrataidd;
- cynorthwyo gyda'r prosesau asesu sy'n sail i ddull cymesur o arolygu, archwilio a rheoleiddio;
- cydnabod yn gynt bod problemau, ac fel y bo modd rhoi cymorth ac ymyrryd mewn modd mwy amserol er mwyn sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol;
- darparu sylfaen dystiolaeth fwy cyflawn a dibynadwy er mwyn datblygu polisïau cenedlaethol.

---

[4] *Ar Draws Ffiniau: Gwasanaethau Lleol i Gymru sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd*, Adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mehefin 2006.

**Cynigion**

4.5 Byddwn yn datblygu trefniadau sydd wedi'u cydgysylltu'n well ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y ffordd yr ydym yn mynd ati i bennu blaenoriaethau ac i gomisiynu neu i ofyn am waith oddi wrth gyrff adolygu allanol, ac ar gyfer y ffordd yr ydym yn ymateb i ganfyddiadau gwaith o'r fath.

4.6 Byddwn yn cytuno ar brotocol neu god ymarfer ffurfiol ar y berthynas rhwng Gweinidogion Cynulliad Cymru a'r arolygiaethau yn Llywodraeth Cynulliad Cymru (Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)) er mwyn cadarnhau eu hannibyniaeth broffesiynol wrth iddynt ymgymryd â'u swyddogaethau arolygu allanol.

4.7 Byddwn yn gwella'n gallu i ddefnyddio canfyddiadau adolygiadau allanol, ar y cyd â thystiolaeth berthnasol arall, er mwyn datblygu polisïau cenedlaethol, a byddwn hefyd yn gwella'r gweithdrefnau sydd gennym er mwyn gwneud hynny.

4.8 Byddwn yn treialu gwerthusiadau ardal neu werthusiadau ranbarthol o wasanaethau cyhoeddus, gan roi rhan yn y gwaith hwn i gyrff adolygu allanol a chyrff eraill, er mwyn dysgu gwersi'n lleol ac yn genedlaethol.

## 5. CYMESUREDD

5.1 Dylai gwaith arolygu, archwilio a rheoleiddio fod yn gymesur – â'r risg, â'r posibiliadau o ran sicrhau gwelliannau, â'r budd tebygol ac â buddiannau dinasyddion. Rhaid i'r cysyniad o gymesuredd fod yn sail i faint a chyfeiriad y gweithgarwch sy'n digwydd – a hynny mewn modd amlwg.

5.2 Mae'r blaenoriaethau cyffredinol ar gyfer gwaith adolygu allanol yn cael eu pennu gan ddeddfwriaeth a chan bolisïau'r llywodraeth, ac maent hwy yn eu tro yn adlewyrchu canfyddiadau o ran budd y cyhoedd. Mae'n bosibl y bydd y blaenoriaethau a'r canfyddiadau hyn yn newid yng ngoleuni profiad: byddwn yn eu hadolygu'n gyson ac yn cyhoeddi canllawiau pellach yn ôl yr angen.

5.3 O fewn y blaenoriaethau cyffredinol a bennir gan ddeddfwriaeth a chan bolisïau, rydym yn cefnogi'r camau y mae cyrff adolygu allanol yn eu cymryd er mwyn teilwra eu gweithgareddau mewn modd mwy penodol a mwy systematig yn unol ag egwyddor cymesuredd. Wrth wneud hynny, dylent ystyried y pwyntiau a ganlyn:

- y lefelau risg sydd ymhlyg yn y gwasanaethau neu'r gweithgareddau sy'n cael eu hadolygu, o ran y *tebygolrwydd* y bydd anfantais i ddinasyddion unigol ac i fuddiannau dinasyddion ac o ran difrifoldeb neu faint yr *effaith* neu'r *niwed* posibl a achosir;
- safbwyntiau a phryderon dinasyddion, fel y'u mynegir drwy arolygon, ymgyngoriadau, cwynion, sefydliadau sy'n cynrychioli dinasyddion, cynrychiolwyr etholedig neu fel y'u mynegir yn uniongyrchol wrth y cyrff adolygu allanol;
- pryderon a blaenoriaethau Gweinidogion;
- pa mor ddigonol yw'r systemau a ddefnyddir gan y cyrff a adolygir i ganfod perfformiad gwael, dirywiad o ran perfformiad ac anfantais a niwed gwirioneddol;
- gwybodaeth sydd ar gael eisoes am y modd y mae gwasanaethau'n cael eu rheoli, am berfformiad ac am ganlyniadau;
- gallu'r sefydliad neu'r sefydliadau o dan sylw i bennu safonau ar gyfer gwasanaethau, i reoli perfformiad ac i fod yn atebol i'r cyhoedd am eu perfformiad, yn ogystal â'r hanes sydd iddynt o ran gwneud hynny;
- a oes ffyrdd eraill o sicrhau ansawdd, o graffu a bod yn atebol i'r cyhoedd, ac a ydynt yn effeithiol;
- faint o amser sydd wedi mynd heibio ers y tro diwethaf i'r gwasanaethau o dan sylw gael eu hadolygu'n allanol.

5.4 Dylai'r cyrff adolygu allanol sefydlu prosesau clir ar gyfer cynnal asesiadau o'r fath (gan wneud hynny ar y cyd neu'n unigol fel y bo'n briodol). Ceir rhannu'r broses asesu hon gyda'r corff o dan sylw (yn yr un modd â'r asesiadau gwella a gynhelir o'r awdurdodau lleol o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella) ond rhaid i'r corff adolygu allanol ei hun barhau i fod yn gyfrifol am ei gyfraniad ei hun i'r broses honno o asesu ar y cyd ac am y penderfyniadau y mae'n eu gwneud ar sail y broses asesu honno.

5.5 Rhaid wrth gysylltiad clir rhwng yr asesiad a maint a ffocws y gweithgarwch adolygu allanol sy'n ei ddilyn. Wrth i gyrff a adolygir wella eu trefniadau eu hunain ar gyfer rheoli perfformiad, ac ar gyfer craffu a bod yn atebol i'r cyhoedd, dylent fedru disgwyl llai o weithgarwch adolygu allanol sy'n canolbwyntio ar gasglu gwybodaeth sylfaenol ac ar asesu perfformiad, ac yn lle hynny, dylent fedru disgwyl gwaith mwy detholus lle'r eir ati i wirio'r gwir sefyllfa, yn ogystal â disgwyl dulliau thematig o weithredu.

**Cynnig**

5.6 Byddwn yn cydweithio â chyrff adolygu allanol i sefydlu systemau cydgysylltiedig er mwyn mynd ati'n rheolaidd (yn flynyddol ar gyfer cyrff cyhoeddus mawr) i asesu perfformiad gwasanaethau, i asesu'r modd y caiff y gwasanaethau hynny eu llywodraethu a'u rheoli, i asesu risgiau a blaenoriaethau. Bydd yr asesiadau hynny'n sail i:

- raglenni adolygu allanol sy'n amlwg gymesur;
- rhaglenni cymorth ac ymyrryd gan gyrff eraill.

## 6. CYDGYSYLLTU

6.1 Rydym wedi llwyddo eisoes i ad-drefnu cyrff adolygu allanol a'u swyddogaethau yn sylweddol, drwy greu Swyddfa Archwilio Cymru, AGIC ac AGGCC, drwy drosglwyddo'r gwaith o arolygu mewn perthynas â thwyll budd-daliadau i Swyddfa Archwilio Cymru, a thrwy drosglwyddo cyfrifoldebau Comisiwn y Ddeddf Iechyd Meddwl a pheth o waith Cronfa Risg Cymru i AGIC. Mae gan Gymru bellach gyrff arolygu, archwilio a rheoleiddio cryf, sy'n gallu arfer awdurdod proffesiynol yn eu sectorau priodol a mynegi safbwynt ystyrlon am wasanaethau. Byddwn yn parhau i fod yn bragmatig wrth ystyried ad-drefnu pellach yn y sectorau gwasanaethau.

6.2 Mae llawer iawn wedi'i gyflawni eisoes o ran cydgysylltu gwaith y cyrff adolygu allanol, a hynny drwy Fforwm Penaethiaid yr Arolygiaethau, drwy'r Concordat ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol[5], drwy'r trefniadau sydd y tu ôl i Raglen Cymru ar gyfer Gwella a thrwy waith ar y cyd ar fentrau penodol gan y cyrff adolygu allanol. Rydym o'r farn y dylai gwaith gael ei gydgysylltu mewn modd mwy systematig o fewn y sectorau gwasanaethau ac yn fwy cyffredinol. Rydym am weld mwy yn cael ei gyflawni o ran cynllunio rhaglenni, cyfnewid gwybodaeth, cydgysylltu gwaith asesu, trefnu amserlenni ar gyfer gwaith, gweithio ar y cyd, dulliau adrodd, ac o ran y modd y caiff canfyddiadau eu dadansoddi a'u defnyddio. Byddwn yn hyrwyddo trefniadau sefydliadol a fydd o gymorth wrth gydgysylltu gwaith.

6.3 Rydym o'r farn mai'r ffordd fwyaf effeithiol o gydgysylltu gwaith yw drwy sicrhau bod y cyrff adolygu allanol eu hunain yn mynd ati'n wirfoddol i gydweithredu. Byddwn yn hwyluso'r cydweithrediad hwnnw, yn cyhoeddi canllawiau lle bo hynny'n briodol ac yn defnyddio camau mwy ffurfiol os dyna fyddai'n fwyaf cynhyrchiol.

6.4 Bydd ein Mesur arfaethedig ar Lywodraeth Leol yn cryfhau'r trefniadau ar gyfer gwaith adolygu allanol o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella, gan wneud hynny drwy'r rôl gydgysylltu sydd gan yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'n fwriad gennym sefydlu rolau cydgysylltu arweiniol tebyg yn y sectorau gwasanaethau.

### Cynigion

6.5 Byddwn yn ehangu cwmpas Fforwm Penaethiaid yr Arolygiaethau, gan fynd ati i gynnwys cyrff adolygu allanol eraill sy'n gweithio yng Nghymru.

6.6 Byddwn yn cefnogi trefniadau sefydliadol (megis swyddi ar y cyd neu ysgrifenyddiaethau ar y cyd) a datblygiadau technegol (megis dulliau a fydd o gymorth i rannu gwybodaeth a threfnu amserlenni) er mwyn hyrwyddo gwaith cydgysylltiedig.

---

[5] Gweler www.walesconcordat.org.uk

6.7 Bydd ein Mesur ar Lywodraeth Leol yn fodd i sicrhau mwy o gydweithio rhwng archwilwyr, rheoleiddwyr ac arolygwyr ym maes llywodraeth leol, yn benodol felly drwy asesiad gwella a gynhelir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a thrwy amserlen reoleiddio ac arolygu a gaiff ei llunio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar y cyd â chyff rheoleiddio ac arolygu eraill.

6.8 Byddwn yn hyrwyddo trefniadau arwain o fewn pob un o'r prif sectorau gwasanaethau cyhoeddus (addysg, iechyd, gofal cymdeithasol), ac o dan y trefniadau hynny, bydd y brif arolygiaeth yn cydgysylltu'r gwaith a wneir gan gyrff adolygu allanol eraill (mewn ffordd debyg i'r hyn y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei wneud ar gyfer awdurdodau lleol o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella).

## 7. GWNEUD Y DEFNYDD GORAU O ADNODDAU

7.1 Mae'r adnoddau sy'n cael eu neilltuo ar gyfer gwaith adolygu allanol yn fuddsoddiad mewn buddiannau dinasyddion, a hynny am fod gwaith o'r fath yn hyrwyddo gwelliannau i wasanaethau, gwell defnydd o arian cyhoeddus a gwell atebolrwydd democrataidd. Rhaid i bawb sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn ddefnyddio'r buddsoddiad hwnnw mewn modd mor effeithlon ac effeithiol ag y bo modd. Mae gwaith adolygu allanol yn golygu hefyd fod galwadau ar adnoddau'r cyrff sy'n cael eu hadolygu. Rhaid pwyso a mesur y gost yn ofalus yn erbyn budd cyhoeddus a manteision y gweithgarwch.

7.2 Rydym yn disgwyl i gyrff adolygu allanol, yn ogystal â chyrff cyhoeddus eraill, sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn y modd y maent yn defnyddio adnoddau ariannol. Llwyddir i wneud hyn i raddau drwy ragor o gymesuredd a rhagor o gydgysylltu gwaith fel y nodir yn gynharach yn y papur hwn. Bydd modd sicrhau arbedion effeithlonrwydd hefyd drwy gydweithio, drwy safoni mwy ar systemau, a thrwy ddefnydd gwell o dechnolegau newydd. Dylai cyrff adolygu allanol, yn ogystal â gwasanaethau cyhoeddus eraill, geisio gwneud gwaith mwy cyffredin drwy ddulliau sydd ar gael ar y we a thrwy ddulliau electronig eraill rhatach, a hynny fel y bo modd rhyddhau adnoddau dynol drutach i'w defnyddio lle mae eu hangen fwyaf.

7.3 Dylai cyrff adolygu allanol geisio ychwanegu gwerth yn y modd y maent yn defnyddio'u staff eu hunain ac yn y modd y maent yn cynnwys staff cyrff eraill yn eu gweithgareddau, a hynny er mwyn datblygu dysgu a lledaenu arbenigedd.

7.4 Rydym yn disgwyl i'r cyrff adolygu allanol fonitro ac addasu'r modd y maent yn defnyddio adnoddau, er mwyn bodloni gofynion dyfodol cynaliadwy, fel y'u hamlinellir mewn polisïau cenedlaethol, gan weithio yn unol â Safon y Ddraig Werdd[6] neu safon gyfwerth.

### Cynigion

7.5 Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff adolygu allanol yr ydym yn eu hariannu'n uniongyrchol sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn unol â'r targedau a bennir ar gyfer cyrff cyhoeddus eraill, ac addasu'r modd y maent yn defnyddio adnoddau er mwyn bodloni gofynion dyfodol cynaliadwy, fel y'u hamlinellir mewn polisïau cenedlaethol.

7.6 Byddwn yn ystyried y posibiliadau o sicrhau arbedion effeithlonrwydd pellach yn AGGCC, Estyn ac AGIC drwy rannu rhagor o wasanaethau.

[6] Gweler www.greendragonems.com

## 8. GWELL RHEOLEIDDIO

### Polisi Llywodraeth y DU

8.1 “Gwell rheoleiddio” yw’r enw ar set o bolisïau gan lywodraeth y DU sydd wedi’u hanelu’n bennaf at reoleiddio sy’n effeithio ar fusnesau. Mae pump o’r prif reoleiddwyr yn dod o dan gwmpas y polisïau hyn (yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Asiantaeth yr Amgylchedd a’r Swyddfa Masnachu Teg), yn ogystal â gwasanaethau rheoleiddio yr awdurdodau lleol, gan gynnwys iechyd yr amgylchedd, diogelwch tân, trwyddedu a safonau masnach. Fodd bynnag, er mwyn gweithredu’r polisïau hyn, mae’n rhaid wrth gyfrifoldebau sydd wedi’u datganoli yn ogystal â chyfrifoldebau sydd heb eu datganoli - fel y dangoswyd yn ystod yr ymchwiliad i *E. coli* - nid oes rhaniad clir rhwng rheoleiddio busnesau a gwasanaethau cyhoeddus cyn belled ag y bo buddiannau dinasyddion yn y cwestiwn. At hynny, mae arolygiaethau’r gwasanaethau cyhoeddus hefyd yn arolygu ac yn rheoleiddio llawer o fusnesau sy’n darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol a gwasanaethau addysg. O’r herwydd, mae’n hanfodol bod polisïau Cymru a’r DU, a’r modd y maent yn cael eu gweithredu, yn gydnaws â’i gilydd.

8.2 Aed ati yn adolygiad Hampton[7] i amlinellu egwyddorion ar gyfer gwell rheoleiddio:

- Dylai rheoleiddwyr, a’r system reoleiddio drwyddi draw, ddefnyddio asesiadau cynhwysfawr o risg er mwyn sicrhau bod adnoddau’n cael eu cyfeirio at y meysydd lle mae eu hangen fwyaf;
- Dylai rheoleiddwyr fod yn atebol am effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd eu gweithgareddau, gan barhau ar yr un pryd i fod yn annibynnol o ran y penderfyniadau y maent yn eu gwneud;
- Ni ddylid cynnal unrhyw arolygiad oni bai fod rheswm dros wneud hynny;
- Ni ddylai busnesau orfod rhoi gwybodaeth ddiangen, ac ni ddylent ychwaith orfod rhoi’r un darn o wybodaeth ddwywaith;
- Dylai’r ychydig fusnesau sy’n torri’r rheoliadau’n gyson gael eu nodi’n gyflym;
- Dylai rheoleiddwyr roi cyngor awdurdodol, hygyrch, gan wneud hynny mewn modd hawdd a rhad;
- Dylai rheoleiddwyr sylweddoli mai un o elfennau allweddol eu gweithgarwch fydd caniatáu, neu hyd yn oed hybu, cynnydd economaidd, ac mai dim ond os oes rheswm clir dros gymryd camau diogelu y dylent ymyrryd.

8.3 Mae llywodraeth y DU wedi cynnal adolygiadau o’r pum prif reoleiddiwr a restrir uchod er mwyn asesu a ydynt yn cydymffurfio â’r egwyddorion hyn.

---

[7] Philip Hampton: *Reducing administrative burdens: effective inspection and enforcement* Trysorlys Ei Mawrhydi, Mawrth 2005

Mae wedi paratoi Cod Cydymffurfio statudol ar gyfer Rheoleiddwyr[8] (nad yw'n gymwys ar hyn o bryd i swyddogaethau rheoleiddio nad ydynt ond yn arferadwy yng Nghymru neu mewn perthynas â Chymru). Mae wedi sefydlu'r Swyddfa Gwell Rheoleiddio Lleol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau rheoleiddio'r awdurdodau lleol yn cael eu darparu mewn modd effeithiol. Aed ati yn adolygiad Rogers[9] i gynnig blaenoriaethau ar gyfer y gwasanaethau hyn o ran gwaith gorfodi. Mae llywodraeth y DU bellach yn ystyried cod ar gyfer arolygiaethau'r gwasanaethau cyhoeddus (a allai effeithio ar arolygiaethau heb eu datganoli sy'n gweithio yng Nghymru).

**Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru**

8.4 Rydym yn cydweithio â'r Weithrediaeth Gwell Rheoleiddio yn llywodraeth y DU a chyda'r Swyddfa Gwell Rheoleiddio Lleol er mwyn sicrhau dull cyson o weithredu ar draws y DU. Rydym am sicrhau hefyd fod ein blaenoriaethau ein hunain, fel y'u hamlinellir yn *Cymru'n Un*, yn cael eu hadlewyrchu'n briodol ym mhob rhaglen adolygu allanol yng Nghymru. Er enghraifft, mae'r ymgyrch i gael gwared ar ormod o fiwrocratiaeth ym myd busnes yn gwbl gyson â nod *Cymru'n Un* o ysgogi menter a thwf busnesau; mae egwyddorion gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, hyrwyddo dyfodol iach, cymdeithas deg a chyfiawn, ac amgylchedd cynaliadwy yn golygu bod yn rhaid sicrhau cydbwysedd priodol rhwng yr ymgyrch honno a hyrwyddo a diogelu buddiannau dinasyddion fel defnyddwyr a thrigolion.

8.5 Cynigiwyd yn ystod adolygiad Rogers mai'r materion a ganlyn y dylai gwasanaethau rheoleiddio'r awdurdodau lleol roi blaenoriaeth iddynt wrth reoleiddio:

Blaenoriaethau cenedlaethol o ran gwaith gorfodi:

- ansawdd aer
- trwyddedu alcohol
- masnachu teg
- hylendid busnesau bwyd
- gwella iechyd yn y gwaith
- iechyd anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd

Blaenoriaethau posibl o ran gwaith gorfodi lleol:

- ansawdd yr amgylchedd lleol
- gwerthu i bobl o dan oed
- y ffordd y mae'r cynllun mesur iechyd a diogelwch ar gyfer tai yn cael ei redeg
- trwyddedu tai amlfeddiannaeth
- credyd ar gyfer defnyddwyr

---

[8] Yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio: *Regulators' Compliance Code*, Rhagfyr 2007 (www.berr.gov.uk/files/file45019.pdf)

[9] Peter Rogers: *National Enforcement Priorities for Local Authority Regulatory Services*, Swyddfa'r Cabinet, Mawrth 2007

- bwyd sy’n cael ei fewnforio
- tir halogedig
- niwsans sŵn

8.6 Hoffem eich gwahodd i fynegi barn am y blaenoriaethau hyn – yn benodol, ynghylch ai’r blaenoriaethau cenedlaethol hyn yw’r rhai priodol i Gymru.

**Rheoleiddio busnesau a sefydliadau gwirfoddol sy’n darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol a gwasanaethau addysg, a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig**

8.7 Wrth i arolygiaethau’r gwasanaethau cyhoeddus reoleiddio ac arolygu busnesau a sefydliadau gwirfoddol, rydym yn disgwyl iddynt barhau i barchu egwyddorion Hampton, i’r graddau y mae hynny’n gyson â gofynion statudol a pholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru (gan gynnwys y rheini a amlinellir yn gynharach yn y datganiad hwn).

8.8 Aethom ati’n ddiweddar i gomisiynu adolygiad (adolygiad Essex) o’r trefniadau ar gyfer rheoleiddio ac arolygu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac rydym bellach yn ystyried yr argymhellion a wnaed yn ystod yr adolygiad hwnnw. Byddwn yn sicrhau bod y trefniadau newydd yn gydnaws â’r egwyddorion cyffredinol a’u bod yn cael eu cydgysylltu mewn modd priodol â mathau eraill o waith adolygu allanol.

**Mathau eraill o waith rheoleiddio**

8.9 Rydym yn disgwyl i fathau eraill o waith rheoleiddio (er enghraifft, gofynion sy’n gysylltiedig â diwydiannau penodol a rhai mathau o waith rheoleiddio sy’n gysylltiedig â phroffesiynau) ddilyn yr un egwyddorion cyffredinol â’r rheini sy’n cael eu hamlinellu yn y datganiad hwn. Yn yr un modd, rydym yn disgwyl i gyrff cyhoeddus eraill, wrth iddynt fynd ati i reoleiddio ac i arolygu, ddilyn yr un egwyddorion. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn adolygu’r gyfundrefn reoleiddio ar gyfer y diwydiant ffermio.

**Cynigion**

8.10 Byddwn yn cydweithio â Llywodraeth y DU a chyda’r gweinyddiaethau datganoledig eraill er mwyn sicrhau bod polisïau ledled y DU yn gydnaws â’i gilydd, a’u bod hefyd yn cael eu gweithredu mewn modd cyson.

8.11 Byddwn yn cymryd camau i sicrhau bod y Cod Cydymffurfio ar gyfer Rheoleiddwyr yn gymwys i bob swyddogaeth reoleiddio berthnasol yng Nghymru.

8.12 Rydym yn disgwyl i bawb sy’n arfer swyddogaethau rheoleiddio yng Nghymru ddilyn egwyddorion Gwell Rheoleiddio.

8.13 Byddwn yn sefydlu cysylltiadau â’r Swyddfa Gwell Rheoleiddio Lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, gwasanaethau rheoleiddio yr awdurdodau lleol a chyrff perthnasol eraill er mwyn hyrwyddo gwell rheoleiddio yng Nghymru.

8.14 Byddwn yn diwygio’n trefniadau ar gyfer rheoleiddio ac arolygu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, gan ystyried argymhellion adolygiad Essex, er mwyn sicrhau eu bod yn unol ag egwyddorion y datganiad polisi hwn.

8.15 Rydym yn cydweithio ag eraill i newid y gyfundrefn reoleiddio ar gyfer ffermwyr, er mwyn sicrhau ei bod yn fwy cymesur, effeithlon ac effeithiol.

## SYLWADAU

### 1. Cyffredinol

Byddem yn croesawu sylwadau am yr amcanion a'r egwyddorion cyffredinol a amlinellir yn y datganiad hwn. Byddai o gymorth i ni pe baech yn grwpio'ch sylwadau o dan deitlau'r penodau os yw hynny'n ymarferol. Dyma rai o'r cwestiynau y byddwch, o bosibl, am fynd i'r afael â hwy:

A ydych yn cytuno â'r amcanion a'r egwyddorion cyffredinol a amlinellir yn y datganiad hwn?

Sut y gall cyrff adolygu allanol ddangos eu bod yn atebol i'r rheini y maent yn eu cynrychioli ac i'r rheini y maent yn eu gwasanaethu, a sut orau y gallant ddangos y cynnydd y maent wedi'i wneud eisoes a'r cynnydd y maent yn bwriadu ei wneud yn y dyfodol yn unol â'r datganiad polisi hwn?

Sut orau y mae gwella'r cysylltiadau rhwng cyrff adolygu allanol a'r dinasyddion y mae eu buddiannau'n cael eu cynrychioli ganddynt?

Sut orau y mae sicrhau bod y cyrff adolygu allanol a'r rheini y maent yn eu hadolygu yn mynd ati i drafod yn ôl yr angen?

Pa gamau eraill y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru eu cymryd er mwyn cyrraedd y nodau a amlinellir yn y datganiad hwn?

### 2. Cynigion penodol

Byddem yn croesawu sylwadau am y cynigion penodol. Byddai o gymorth i ni pe baech yn rhoi cyfeirnod y paragraff ar gyfer pob cynnig y byddwch yn cyflwyno sylwadau yn ei gylch.

### 3. Adolygiad Rogers

Byddem yn croesawu sylwadau am y blaenoriaethau a amlinellir yn adolygiad Rogers o ran gwaith gorfodi ac ynghylch pa mor gymwys yw'r blaenoriaethau hynny i Gymru.

Dylech anfon eich sylwadau drwy'r e-bost neu drwy lythyr erbyn 27 Chwefror at:

Richard Shearer
Perfformiad Cymru
Yr Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: richard.shearer@wales.gsi.gov.uk